Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

The ICO exists to empower you through information.
Mae'r ICO yn bodoli i'ch grymuso chi drwy gyfrwng gwybodaeth.

2nd Floor, Churchill House, Churchill Way, Cardiff, CF10 2HH
Ail Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH
T. 0330 414 6421 E. wales@ico.org.uk / cymru@ico.org.uk
ico.org.uk

Ein cyfeirnod: ICO/O/JE/L/MIS/0719
12 Gorffennaf 2024

Annwyl ____,

Mae tryloywder ac ymddiriedaeth yn mynd law yn llaw. Mae bod yn agored ac yn onest gyda chwsmeriaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth rhagorol, ac mae'n fodd inni ganolbwyntio ar ein cryfderau yn hytrach na'n diffygion.

Mae sylw parhaus yn y cyfryngau a mwy o bryder ynghylch gollwng carthion, ochr yn ochr ag anfodlonrwydd y cwmnïau dŵr i ryddhau gwybodaeth am eu harferion, wedi niweidio hyder y cyhoedd. Mae gennych chi rôl i'w chwarae i fynd i'r afael â hyn a sicrhau mai bod yn agored yw'r sefyllfa ddiofyn ar gyfer eich sefydliad.

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol arnoch chi hefyd i fod yn dryloyw. O gofio’r gyfraith achosion yn y tribiwnlys yn ddiweddar a'r pwysau parhaus sy'n wynebu cwmnïau dŵr dros lygredd carthion, roeddwn i'n meddwl y byddai'n fuddiol egluro safbwynt yr ICO ar ddatgelu data amrwd ynglŷn â gorlifion carthion o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR).

Fel y gwyddoch, er nad yw cwmnïau dŵr yn dod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae gennych ddyletswyddau statudol o dan yr EIR. Mae'r ddeddfwriaeth yma yn gofyn ichi ymateb i geisiadau am wybodaeth amgylcheddol a mynd ati’n raddol i drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd.

Dyroddodd fy swyddfa hysbysiadau penderfynu i chwe chwmni dŵr ym mis Mai 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i amserau dechrau a stopio gollyngiadau gael eu datgelu. Roedd yr hysbysiadau hyn yn dangos ein bod yn symud i ffwrdd o'n safbwynt blaenorol ar achosion tebyg, sef safbwynt roedden ni eisoes yn ei adolygu pan gawsom y dyfarniad yn achos tribiwnlys Stephen Lavelle v The Information Commissioner & Ors [2024] UKFTT 343 (GRC). Yn yr achos hwnnw, gorchmynnodd y tribiwnlys ddatgelu data amrwd, ffeithiol nad oedd yr eithriad yn rheoliad 12(5)(b) o'r EIR (eithriad yng nghwrs cyfiawnder) yn gymwys iddo, er bod yna Ymchwiliad ar ei hanner gan Asiantaeth yr Amgylcheddol ac Ofwat. Ailddatganodd y dyfarniad hefyd y rhagdybiaeth yn yr EIR o blaid datgelu gwybodaeth amgylcheddol.
Eglurodd yr achos hwn nad yw'r ffaith bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn uniongyrchol berthnasol i ymchwiliad sydd ar ei hanner yn

Information Commissioner's Office

golygu y byddai datgelu o reidrwydd yn cael effaith andwyol ar gwrs cyfiawnder, a fyddai'n sbarduno’r eithriad a geir yn rheoliad 12(5)(b).

Yng ngoleuni’n hadolygiad o'r dystiolaeth a welsom yn ein hymchwiliadau diweddaraf, y sylwadau cadarnhaol gan Ofwat[1] am ddatgelu'r math hwn o wybodaeth ac achos Lavelle, mae'n amlwg bod achos cryf dros drefnu bod y math yma o wybodaeth ar gael yn y bau gyhoeddus. Hoffwn eich atgoffa hefyd am y rhagdybiaeth o blaid datgelu sydd wedi'i gynnwys yn yr EIR, a hynny wrth sbarduno’r eithriad ac wrth gynnal prawf budd y cyhoedd. Bydd unrhyw gwynion i ni mewn perthynas â cheisiadau unigol, wrth gwrs, yn cael eu hystyried ar sail y ffeithiau a’r amgylchiadau penodol ym mhob achos a hynny heb ragbenderfyniad.

Mae'r ddeddfwriaeth yn trin gwybodaeth am 'allyriadau', sy'n cynnwys gollyngiadau, fel categori arbennig o wybodaeth, yn yr ystyr na all nifer o eithriadau rhag datgelu fod yn gymwys. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd darparu'r math yma o wybodaeth i'r cyhoedd. Yn ogystal â darparu ymatebion amserol a phriodol i geisiadau am wybodaeth amgylcheddol o'r fath, hoffwn eich annog yn gryf i fynd ati i ddatgelu gwybodaeth briodol sy'n ymwneud â gollwng carthion a hynny yn gyson bob mis. Byddai cyhoeddi’r wybodaeth yma yn rhagweithiol ac yn brydlon nid yn unig yn darparu'r wybodaeth bwysig yma i'r cyhoedd yn gynt ac yn haws, ond fe fyddai hefyd yn fwy cost effeithiol ac effeithlon na delio â'r dewis arall o ymatebion niferus i geisiadau unigol am yr wybodaeth.
Mae fy swyddfa yn hapus i drafod hyn ymhellach os byddai hynny'n fuddiol.

Rwy'n croesawu ymateb yn cadarnhau y byddwch chi nawr yn cyhoeddi mwy o wybodaeth. Bydd hyn yn arwain at fwy o dryloywder a gall feithrin mwy o ymddiriedaeth yn y cwmnïau dŵr, yn enwedig ar adeg pan fo'r sector yn wynebu pwysau dros ei weithredoedd sy'n effeithio ar yr amgylchedd.

Yn gywir

John Edwards
**Comisiynydd Gwybodaeth y Deyrnas Unedig**

---

[1] committees.parliament.uk/oralevidence/13888/pdf/